



Cael gwared â'r 'amddiffyniad cosb resymol'



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Fersiwn gymunedol



Cyflwyniad


Mae bod yn rhiant yn rhywbeth sy'n rhoi boddhad, ac mae'n aml yn hwyl, ond mae hefyd yn gallu bod yn heriol.

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi teuluoedd ar rydyn ni eisiau eu helpu nhw i fagu plant iach a hapus.

Rydyn ni eisiau i blant gael y dechrau gorau mewn bywyd.

Dros y blynyddoedd, mae'r ffordd o fagu plant wedi newid. Rydyn ni'n gwybod mwy erbyn hyn am beth sydd ei angen ar blant i dyfu a bod yn ddiogel.

Erbyn hyn, dydyn ni ddim yn caniatáu:



Mae'r cyfreithiau hyn yn cadw plant yn ddiogel ac yn gwella bywydau.

Ond rydyn ni eisiau dal ati i symud ymlaen a gwneud mwy.



Rydyn ni eisiau cael gwared â'r 'amddiffyniad cosb resymol'.

Nid mater o wneud cyfraith newydd mo hyn, ond yn hytrach newid hen un.

Mae pobl yn gryf eu barn ynglŷn â magu plant ac rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl o'r cynllun hwn.

Cosb resymol

Mae angen disgyblu plant fel eu bod nhw'n deall beth sy'n dda a beth sy'n ddrwg, ac yn deall sut i ymddwyn. Ar hyn o bryd, mae hi yn erbyn y gyfraith taro plentyn heblaw pan ystyrir hyn yn 'gosb resymol'.

Roedd smacio'n arfer bod yn rhan arferol o fagu plant. Mae angen disgyblu plant. Ond mae disgyblu'n wahanol i gosbi corfforol.

Mae cael gwared â'r amddiffyniad yn ei gwneud hi'n eglur nad yw cosbi plant yn gorfforol yn dderbyniol yng Nghymru.



Beth y mae'r gyfraith yn ei ddweud

Daeth yr amddiffyniad '**cosb resymol**' yn gyfraith yn ystod oes Fictoria.

Ym 1860, cafodd bachgen ei guro gan athro. Roedd yr athro wedi cael caniatâd y tad i gosbi'r plentyn.

Ond bu'r bachgen farw o ganlyniad.

Yn ystod y treial, dywedodd y Prif Ustus

*"Gall rhiant neu ysgolfeistr, sydd wedi cael awdurdod rhiant wedi'i ddirprwyo iddo, roi cosb gymedrol a rhesymol i'r plentyn er mwyn cywiro'r hyn sy'n ddrwg ynddo. Fodd bynnag, mae'n rhaid i hyn fod yn **gymedrol a rhesymol**."*

Mae'r gyfraith hon yn golygu bod oedolion yn gallu cyfiawnhau beth y maen nhw wedi'i wneud trwy ddweud bod y gosb yn rhesymol.


Llinell amser

1986 – Fe edrychodd Senedd y DU ar y gyfraith a dechrau gwneud newidiadau.

1999 – Rhoddwyd stop ar gosbi corfforol mewn ysgolion annibynnol a phreifat.

2002 – Rhoddwyd stop ar gosbi corfforol ym mhob lleoliad gofal maeth Awdurdod Lleol.

2007 – Rhoddwyd stop ar gosbi corfforol ym mhob darpariaeth gofal plant yn y DU.



Hyd at yr 1980au – Roedd cosbi corfforol yn beth cyffredin mewn ysgolion.

1987 – Rhoddwyd stop ar gosbi corfforol ym mhob ysgol awdurdod lleol.

2001 – Rhoddwyd stop ar gosbi corfforol mewn cartrefi plant.

2004 – Fe gyfyngodd Deddf Plant 2004 ar sut y gallai rhywun ddefnyddio'r amddiffyniad cosb resymol.

2017 – Does gan blant dal ddim cymaint i'w diogelu rhag cosbi corfforol ag sydd gan oedolion.

Tystiolaeth a'r achos dros newid

Mae tystiolaeth yn dangos :

- nad ydy cosbi corfforol yn gwella ymddygiad yn y tymor hir
- bod cosbi corfforol yn gallu cael effeithiau negyddol ar blant
- bod cosbi corfforol yn dod yn llai derbyniol i lawer o rieni.

Mae hi'n anodd profi'r effaith ar blant a chasglu tystiolaeth. Mae rhai rhieni'n ateb gyda'r hyn y maen nhw'n meddwl sy'n dderbyniol neu'n siarad am smacio neu am gael eu smacio yn y gorffennol.

Mae rhai gweithwyr proffesiynol a rhieni'n dadlau nad ydy smacio'n achosi niwed os mai pur anaml y mae'n cael ei wneud.

Fodd bynnag, dydyn nhw ddim yn manylu ar beth yn union ydy pur anaml, a dydyn nhw ddim yn ystyried bod smacio weithiau'n datblygu o fod yn smacio ysgafn i smacio caletach dros amser.

Mae yna dystiolaeth sy'n awgrymu bod plant sy'n byw â chael eu cosbi'n gorfforol dro ar ôl tro yn fwy tebygol o fod ag:

- ymddygiadau anodd
- llai o gyfleoedd a chyflawniad academaidd is
- problemau iechyd meddwl plant
- problemau iechyd meddwl yn ddiweddarach pan maen nhw'n oedolion
- risg fwy o ddioddef cam-drin corfforol
- risg fwy o gam-drin pobl eraill.

Mae agweddau tuag at fagu plant yn newid.

A oes angen smacio plentyn drwg weithiau?

Ym **1998**, gofynnodd yr Adran Iechyd y cwestiwn i 2000 o oedolion Prydeinig, a dywedodd

88% bod angen

Yn **2015**, gofynnodd Llywodraeth Cymru yr un cwestiwn i 387 o rieni â phlant dan 6 oed, a dywedodd

24% bod angen

A ddylid gwahardd rhieni yn llwyr rhag taro eu plant, hyd yn oed smacio, fel cosb?

Yn 2013 – gwnaethon ni ofyn y cwestiwn i 1,022 o bobl yng Nghymru a oedd â phlant dan 18 oed

Gwnaeth **28%** gytuno

Gwnaeth **51%** anghytuno

Yn 2015 – gwnaethon ni ofyn yr un cwestiwn i 387 o rieni a oedd â phlant dan 6 oed

Gwnaeth **46%** gytuno

Gwnaeth **43%** anghytuno

Hawliau

Mae gan bawb hawliau. Mae'n rhaid i unrhyw gyfreithiau rydyn ni'n eu gwneud weddu i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (CEHD). Mae hyn yn cynnwys cael gwared â'r amddiffyniad cosb resymol.

Y prif hawliau y mae gan hyn gysylltiad â nhw ydy:

ERTHYGL 8: Hawl i barch i fywyd preifat a theuluol

ERTHYGL 9: Hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd

Dydyn ni ddim yn gallu gwneud unrhyw newidiadau i hawliau oni bai bod angen hynny:

- er diogelwch cenedlaethol a diogelwch y cyhoedd
- er llesiant economaidd y wlad
- i atal anhrefn neu drosedd
- i ddiogelu iechyd neu foesau, neu
- i ddiogelu hawliau a rhyddid pobl eraill.

Diben newid y gyfraith hon yw diogelu hawliau a rhyddid pobl eraill – plant.

Mae hefyd yn cyflawni ein dyletswydd i **Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** (CCUHP).

Mae erthygl 19 yn dweud:

“Mae'n rhaid i'r cyfreithiau a'r mesurau iawn fod ar waith i ddiogelu plant. Mae hyn yn cynnwys pob math o drais corfforol neu feddyliol, niwed neu gamdriniaeth, esgeulustod neu driniaeth esgeulus, cam-drin neu gamfanteisio, gan gynnwys cam-drin rhywiol, tra'u bod dan ofal rhiant/rhieni, gwarcheidwad/gwarcheidwaid cyfreithiol neu unrhyw un arall sydd â'r gofal am y plentyn.”



Beth rydyn ni eisiau ei wneud

Rydyn ni eisiau cael gwared â'r 'amddiffyniad cosb resymol' yng Nghymru.

Fe fydd hyn yn golygu:

- **Y bydd gan blant wedyn cymaint i'w diogelu dan y gyfraith rhag cosbi corfforol ag sydd gan oedolion.**
- **Na fydd yr amddiffyniad cosb resymol ar gael i'w ddefnyddio.**
- **Na fydd unrhyw oedolyn sy'n gofalu am blentyn yn cael defnyddio cosb gorfforol yn ei erbyn.**
- **Y ceir gwared â'r manau gwan neu'r bylchau yn y gyfraith sy'n caniatáu cosbi plant yn gorfforol mewn rhai lleoedd.**



A fydd hyn yn gwneud rhai rhieni'n droseddwr?

Rydyn ni'n deall yr ofn hwn. Ond dydy hyn heb ddigwydd mewn gwledydd eraill sydd wedi newid eu cyfraith. Yn Seland Newydd, mae data'r heddlu'n dangos na fu unrhyw gynnydd yn y reportio ac na fu cynnydd ychwaith yn nifer y rhieni sy'n cael eu herlyn am 'smacio ysgafn'. Fodd bynnag, roedd yr heddlu wedi gallu cyfeirio teuluoedd at wasanaethau eraill lle roedd angen hynny. Roedden nhw hefyd wedi gallu dwyn achosion yn eu blaen a oedd yn cynnwys plant yn cael eu dyrnu yn eu hwyneb, yn cael eu taro dro ar ôl tro neu'n cael rhywun yn ymosod arnyn nhw pan roedd wedi'i wylltio.



Cefnogi Rhieni

Mae angen ffiniau ar blant. Rydyn ni eisiau helpu rhieni i reoli ymddygiad eu plentyn heb ddefnyddio cosb gorfforol. Fe fyddwn ni'n cefnogi rhieni i wybod sut i ddefnyddio rhianta positif fel rhan o'r newidiadau hyn.



Mae rhianta positif yn golygu:

- cael ffiniau clir, cyson sy'n briodol i oedran
- helpu plant i wybod beth ydy'r ffiniau
- darparu'r oruchwyliaeth iawn
- rhoi gwybod i blant sut rydych chi'n disgwyl iddyn nhw ymddwyn
- canmol ymddygiad da
- bod yn esiampl o ymddygiad da
- trin ymddygiadau anodd heb ddefnyddio cosb gorfforol neu heb weiddi'n ormodol
- bod yn anogol a chefnogol.

Gall rhieni a gofalwyr gael cyngor a chymorth oddi wrth:

- Gwefan ac ymgyrch yn y cyfryngau, "[Magu plant. Rhowch amser iddo](#)" – yn cefnogi rhieni i fagu plant dan 5 oed
- gwasanaethau iechyd, gan gynnwys meddygon teulu ac ymwelwyr iechyd
- gwasanaethau awdurdod lleol
- gwasanaethau addysg
- raglen Teuluoedd yn Gyntaf
- rhaglen Dechrau'n Deg
- llawer o sefydliadau eraill.

Effaith ar wasanaethau a Chyrff Cyhoeddus

Mae awdurdodau lleol, yr heddlu a gwasanaethau eraill yn gorfod gwneud mwy ac mae adnoddau'n dynn. Rydyn ni wedi siarad â nhw ynglŷn â chael gwared â'r amddiffyniad.

Yr Heddlu

Mae'r cyhoedd yn rhoi gwybod i bob un o'r pedwar heddlu yng Nghymru am blant sy'n cael eu smacio, yn nodweddiadol y tu allan i ysgol neu archfarchnad. Mae'r heddlu'n dweud na fydd cael gwared â'r amddiffyniad yn newid eu ffordd o weithio ond ei bod yn bosibl y bydd yna fwy o reportio ar y dechrau pan ddaw pobl i wybod am y gyfraith gyntaf.

Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cefnogi teuluoedd. Fe fyddai newid yn y gyfraith yn helpu gweithwyr cymdeithasol i roi cyngor mwy eglur ar rianta positif.

Ysgolion

Mae athrawon yn gweld plant bob dydd ac yn chwarae rhan fawr yn eu cadw'n ddiogel. Mae ganddyn nhw ddyletswydd gyfreithiol eisoes i reportio os ydy plentyn yn dweud ei fod wedi'i smacio neu os ydyn nhw'n gweld plentyn yn cael ei smacio. Yna, mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn edrych i mewn i bethau.

Gwasanaeth Erlyn y Goron a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi

Os y bydd rhywun yn mynd gerbron y llys am ymosod ar blentyn, yna ni fydd yr amddiffyniad cosb resymol ar gael. Mae'n bosibl y bydd mwy o bobl yn cael eu reportio i'r heddlu ac yn cael eu dwyn gerbron y llys os y byddwn ni'n cael gwared â'r amddiffyniad. Bydd y barnwr neu'r ynad yn gwneud penderfyniad ar sail y dystiolaeth a'r ffeithiau, ac yn penderfynu a yw rhywun yn euog ai peidio.



Cosbau a thaliadau

Dydyn ni ddim yn gwneud cyfraith newydd. Newid hen un rydyn ni'n ei wneud. Felly, fe fydd y cosbau a'r taliadau yr un fath. Mae yna ganllawiau yn barod ynglŷn â beth y dylai'r rhain fod.

Y camau nesaf

Diolch yn fawr am ddarllen hwn.

A fydddech cystal ag ateb y cwestiynau isod a dweud wrthon ni beth rydych chi'n ei feddwl o hyn.



Cwestiynau

? Ydych chi'n meddwl y bydd cael gwared â'r 'amddiffyniad cosb resymol' yn ein helpu ni i gyflawni ein nod o ddiogelu hawliau plant?

Ydw

Nac Ydw

Pam?

? Oes yna unrhyw beth arall rydych chi'n meddwl y dylen ni ei roi ar waith i gefnogi rhieni, gofawyr a gwarcheidwaid?

Oes

Nac oes

Pam?

? Pa fathau o weithrediadau neu ymddygiadau fydddech chi'n eu hystyried yn gosbi corfforol?

? Ydych chi'n cytuno â'n dealltwriaeth o'r effaith ar wasanaethau a chyrff cyhoeddus yn sgil newid y gyfraith i gael gwared â'r amddiffyniad cosb resymol?

Ydw

Nac ydw

Pam?

? Ydych chi'n meddwl bod angen i ni gael mwy o ganllawiau neu hyfforddiant i gefnogi gweithwyr proffesiynol ar y rheng flaen os y byddwn ni'n gwneud hyn?

Ydw

Nac ydw

Pam?

? Sut ydych chi'n meddwl y gellid newid y polisi hwn i gael effeithiau positif (neu dim effeithiau negyddol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

? Oes yna unrhyw beth rydych chi'n meddwl ein bod ni wedi'i adael allan?

Anfonwch eich ymatebion erbyn 2^{il} Ebrill 2018

E-bost talkparenting@gov.wales

neu anfonwch nhw i:

Ymgynghoriad Cael Gwared ag Amddiffyniad Cosb Resymol
Is-adran Plant a Theuluoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NQ

